

17. Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol

Crynodeb

Yn y bennod hon rhoddir sylw i godi tâl a pheidio â chodi tâl ar gyfer gweithgareddau ac ymweliadau ysgol.

Cefndir

1. Mae [Deddf Addysg 1996: Adrannau 449-462](#) yn pennu'r gyfraith o ran y tâl y gellir ei godi ac na ellir ei godi am weithgareddau mewn ysgolion a gynhelir gan ALLau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Ddeddf yn nodi pa weithgareddau y gall ac na all corff llywodraethu godi tâl amdanynt pan fo'r rhain yn digwydd yn ystod neu'r tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys gweithgareddau preswyl. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi y dylai polisïau codi tâl a pheidio â chodi tâl fod ar waith gan bob corff llywodraethu.

2. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llunio '[Arweiniad i Gyrrff Llywodraethu yngyhyllch Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol](#)'. Ceir yn y ddogfen gyfarwyddyd safbwynt polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a dehongliad o'r ddeddf berthnasol ynghylch codi tâl am weithgareddau ysgol. Ni cheir cyngor cyfreithiol yn y ddogfen, fodd bynnag, ac nid yw'n ddogfen i'w darllen gan y sawl sy'n chwilio am gyngor cyfreithiol. Mae'r arweiniad ar gael yn electronig ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Addysg yn ystod Oriau Ysgol

3. Ni ellir codi tâl am dderbyn disgyblion i ysgolion a gynhelir nac am addysg a ddarperir yn ystod oriau ysgol, gan gynnwys deunyddiau, llyfrau, offer a thrafnidiaeth a ddarperir yn ystod oriau ysgol gan yr ALI neu'r ysgol i gludo disgyblion rhwng yr ysgol a gweithgarwch. Ystyr 'oriau ysgol' yw'r oriau hynny pan fo ysgol ar waith, ac nid ydynt yn cynnwys yr egwyl yng nghanol y diwrnod ysgol. Mae gan rieni ac eraill hawl i gael gwybodaeth am oriau ysgol a rhaid cynnwys y wybodaeth honno mewn llawlyfrau a gyhoeddir gan yr ysgol.

4. Mae hawl gan bob plentyn 3 a 4 oed i gael lle addysgol rhan-amser am ddim.

5. Gall corff llywodraethu ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol yn adeiladau ac ar safle'r ysgol. Mae ysgol fro yn un sy'n cynnig gwasanaethau a gweithgareddau amrywiol, yn aml y tu hwnt i oriau ysgol arferol, er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae nifer o ysgolion ledled Cymru eisoes yn darparu rhai gwasanaethau cymunedol gan gynnwys addysg oedolion, cymorth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol. Mae Adran 27 o [Ddeddf Addysg 2002](#):

- yn ei gwneud hi'n haws i gyrff llywodraethu ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau sydd o fudd i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned leol;
- yn rhoi hyblygrwydd i gyrff llywodraethu lunio cytundebau â phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau yn adeiladau ac ar safle'r ysgol;
- yn caniatáu i gyrff llywodraethu godi tâl am rai gwasanaethau.

Ceir canllawiau pellach ym Mhennod 27 o'r canllaw hwn o dan y teitl Ysgolion Bro a hefyd yng [Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 34/2003: Ysgolion Bro](#).

Addysg yn Rhannol y tu Allan i Oriau Ysgol

6. Weithiau gall gweithgarwch ddigwydd yn rhannol yn ystod oriau ysgol ac yn rhannol y tu allan iddynt. Os digwydd y rhan fwyaf o'r amser a dreulir ar weithgarwch dibreswyl yn ystod oriau ysgol, mae'r gweithgarwch hwnnw yn cyfrif fel gweithgarwch sy'n digwydd yn gyfan gwbl yn ystod oriau ysgol ac ni ellir codi tâl. (Nid yw amser a dreulir yn teithio yn cyfrif fel amser yn ystod oriau ysgol oni bai fod y teithio yn digwydd yn ystod oriau ysgol.)

7. Er enghraifft, gallai taith hir gynnwys llawer o deithio cyn ac ar ôl oriau ysgol arferol, ond gallai'r amser a dreulir yn y gyrchfan ddigwydd yn bennaf o fewn oriau ysgol, ac felly byddai'r daith yn cyfrif fel un a oedd yn digwydd yn ystod oriau ysgol a byddai'n rhad ac am ddim. Ar y llaw arall, byddai taith a olygai adael yr ysgol oddeutu awr ynghynt nag arfer yn y prynhawn, ond a âi ymlaen yn weddol hwyr i'r nos, yn cyfrif fel taith a ddigwyddai y tu allan i oriau ysgol. Byddai modd codi tâl mewn achos o'r fath pan nad yw'r gweithgareddau'n rhan o gwricwlwm cenedlaethol nac o faes llafur arholiad y mae'r disgyblion yn cael eu paratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, nac yn rhan o addysg grefyddol.

Addysg y tu Allan i Oriau Ysgol

8. Ni ellir codi tâl ar y rhieni am weithgareddau sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol os yw'r gweithgareddau hynny'n rhan angenrheidiol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu addysg grefyddol. Ni ellir codi tâl am weithgareddau sy'n rhan hanfodol o faes llafur arholiad a gymeradwywyd (gweler paragraff 12 isod.)

9. Gellir codi tâl am weithgareddau eraill sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol os bydd rhieni yn cytuno i dalu. Mae [Deddf Addysg 1996](#) yn disgrifio gweithgareddau y gellir codi tâl amdanynt fel 'ychwanegiadau dewisol'. Mater i'r ALI neu'r corff llywodraethu sy'n darparu'r gweithgareddau yw penderfynu a ddylid codi tâl ai peidio.

Gweithgareddau Preswyl

10. Mae yna reolau arbennig yn achos gweithgareddau preswyl. Y mae taith yn cyfrif fel un sy'n digwydd yn ystod oriau ysgol os yw nifer y sesiynau

ysgol a gollir gan y disgybl yn hanner nifer yr hanner-diwrnodau a dreulir ar y gweithgarwch neu'n rhagor na hynny. Fel arfer rhennir pob diwrnod ysgol yn ddau sesiwn a rhennir pob cyfnod o 24 awr yn ddau hanner-diwrnod sy'n dechrau ganol dydd a chanol nos.

11. Ar y sail hon, byddai taith yn ystod amser tymor o ganol dydd ddydd Mercher hyd 9pm nos Sul yn ymestyn dros naw hanner-diwrnod, gan gynnwys pum sesiwn ysgol, a byddai'n cyfrif fel un sy'n digwydd yn ystod amser ysgol. Byddai taith o ganol dydd ddydd lau hyd 9pm ddydd Sul yn cyfrif fel saith hanner-diwrnod, gan gynnwys tri sesiwn ysgol, ac at ddibenion codi tâl câi ei chyfrif yn un a ddigwyddai y tu allan i oriau ysgol. Os treulir 50% neu ragor o hanner-diwrnod ar daith breswyl, dylech gyfrif y cyfan o'r hanner-diwrnod hwnnw fel un a dreulir ar y daith.

12. Yn achos gweithgarwch preswyl sy'n digwydd yn bennaf yn ystod amser ysgol, neu sy'n ateb gofynion y maes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus, neu sy'n ymwneud â'r cwricwlwm cenedlaethol neu addysg grefyddol, ni ellir codi tâl am yr addysg nac am gost y teithio. O dan yr amgylchiadau hyn, fodd bynnag, gellir codi tâl am luniaeth a llety, ac eithrio yn achos disgyblion y mae eu rhieni'n derbyn un neu fwy o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm;
- Lwfans Ceisio Gwaith - yn seiliedig ar incwm;
- yn derbyn unrhyw fudd-dal neu lwfans arall, neu â hawl i unrhyw gredyd treth o dan [Ddeddf Credydau Treth 2002](#) neu elfen o gredyd treth o'r fath, fel y'u pennir gan reoliadau o dro i dro yn ystod unrhyw gyfnod y cynhelir taith neu ran o daith. Ar hyn o bryd pennir y canlynol:
 - cymorth o dan [Ran 6 o Ddeddf Mewfudo a Lloches 1999](#);
 - Credyd Treth Plant, cyn belled nad yw'r rhiant/rhieni'n derbyn Credyd Treth Gwaith hefyd ac nad yw incwm y teulu (fel yr aseswyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi) yn uwch na £16,040 (ar gyfer 2009/10) (h.y. plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim).
 - [Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm](#)

13. Dylai'r pennaeth hysbysu'r holl rieni y gallant hawlio gweithgareddau am ddim os ydynt yn derbyn y budd-daliadau hyn.

Polisiâu Codi Tâl a Pheidio â Chodi Tâl

14. Nid oes hawl gan yr ALI neu'r corff llywodraethu i godi tâl am unrhyw beth oni bai ei fod wedi llunio polisi codi tâl a pheidio â chodi tâl. Gall polisi'r corff llywodraethu fod yn fwy neu'n llai hael na pholisi'r ALI, cyn belled â'i fod yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol.

15. Bydd datganiad polisi yn ystyried pob math o weithgarwch y gellir codi tâl amdano ac yn egluro pryd y codir tâl. Os codir tâl am fath arbennig o weithgarwch - er enghraifft, 'ychwanegiadau dewisol'- rhaid rhoi gwybod i'r

rhieni sut y cyfrifir y tâl a phwy allai fod yn gymwys i dderbyn cymorth gyda'r gost (neu hyd yn oed yn ei gael am ddim). Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i bob rhiant.

16. Os codir tâl ar bob disgybl, ni ddylai hwn fod yn uwch na'r gost wirioneddol. Os oes angen codi rhagor o arian, er enghraifft, i helpu achosion o galedi, rhaid gwneud hyn drwy gyfraniadau gwirfoddol neu drwy godi arian yn gyffredinol.

17. Gall y tâl a ganiateir gynnwys lwfans ar gyfer costau athrawon yr ysgol sy'n goruchwyllo'r gweithgarwch, ond dim ond os rhoddwyd contract ar wahân i'r athrawon hynny i ddarparu'r ychwanegiad dewisol. Nid oes rhaid i'r contract fod yn ddogfen ffurfiol. Gallai fod yn llythyr syml at athro/awes yn gofyn iddo/iddi ddarparu gwasanaeth ar achlysur penodol.

Arholiadau Cyhoeddus

18. Ni ellir codi tâl am gofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau cyhoeddus a bennir yn y rheoliadau. Rhaid i'r corff llywodraethu gofrestru disgybl ar gyfer pob arholiad mewn maes llafur arholiad cyhoeddus y mae'r ysgol wedi paratoi'r disgybl ar ei gyfer. Nid oes rhaid gwneud hyn os cred y corff llywodraethu fod yna resymau addysgol dros beidio â chofrestru disgybl, neu os bydd rhieni'r disgybl yn gofyn yn ysgrifenedig i'r disgybl beidio â chael ei gofrestru. Ni all yr ALI drechu penderfyniad y corff llywodraethu ynghylch cofrestru disgybl penodol ar gyfer arholiad.

19. Gellir codi tâl cofrestru ar rieni o dan yr amodau canlynol:

- os yw'r arholiad ar y rhestr a bennir ond na pharatowyd y disgybl ar ei gyfer yn yr ysgol;
- os nad yw'r arholiad ar y rhestr a bennir ond bod yr ysgol yn trefnu i'r disgybl sefyll yr arholiad hwnnw;
- os metha disgybl, heb reswm da, â chyflawni gofynion unrhyw arholiad cyhoeddus y bu i'r corff llywodraethu neu'r ALI yn wreiddiol dalu neu gytuno i dalu'r ffi cofrestru ar ei gyfer.

20. Ni ellir codi tâl am unrhyw gost sy'n gysylltiedig â pharatoi disgybl ar gyfer arholiad. Ond caniateir codi tâl am hyfforddiant a chostau eraill os paratwir disgybl y tu allan i oriau ysgol ar gyfer arholiad nad yw wedi ei bennu yn y rheoliadau.

Cyfraniadau Gwirfoddol

21. Er na all ysgolion godi tâl am weithgareddau yn ystod oriau ysgol, gallant wahodd rhieni ac eraill i roi cyfraniadau gwirfoddol (mewn arian neu ar ffurf arall) er mwyn gwneud i arian yr ysgol fynd ymhellach. Rhaid i bob cais a gaiff rhieni am gyfraniadau gwirfoddol ei gwneud yn hollol glir mai gwirfoddol fyddai'r cyfraniadau. Dylai cyrff llywodraethu hefyd ei gwneud yn glir na fydd plant rhieni nad ydynt yn cyfrannu yn cael eu trin yn wahanol. Os na all

gweithgarwch arbennig fynd yn ei flaen heb ryw gymorth gan rieni, dylid egluro hynny iddynt yn ystod y cam cynllunio.

22. Pan na cheir digon o gyfraniadau gwirfoddol i alluogi i'r gweithgarwch fynd rhagddo, a phan nad oes modd dod o hyd i weddill yr arian, yna bydd yn rhaid canslo'r gweithgarwch. Y pwynt hanfodol yw na ellir eithrio unrhyw ddisgybl o weithgarwch oherwydd na all neu na wnaiff y rhieni wneud cyfraniad o unrhyw fath. Rhaid i'r ysgol benderfynu'n gyntaf pa ddsbarth neu grŵp o ddisgyblion sydd i elwa ar y gweithgarwch ac yna edrych am gyfraniadau gwirfoddol, naill ai ar gyfer y gweithgarwch hwnnw neu drwy godi arian yn gyffredinol.

Hyfforddiant ar Offerynnau Cerdd

23. Mae yna eithriad i'r rheol ynghylch peidio â chodi tâl am weithgareddau yn ystod oriau ysgol. Gellir codi tâl am addysgu naill ai ddisgybl unigol, neu ddisgyblion mewn criw o hyd at bedwar, i chwarae offeryn cerdd, os nad yw'r addysgu'n rhan hanfodol naill ai o'r cwricwlwm cenedlaethol neu o faes llafur arholiad cyhoeddus a ddilynir gan ddisgybl.

24. Wrth ysgrifennu'r canllaw hwn, mae gwaith ar y gweill i greu rheoliadau newydd ar gyfer hyfforddiant ar offerynnau cerdd, a disgwylir i'r rhain ddod i rym yn ystod 2009. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn ewch i wefan LICC.

Gweithgareddau nad ydynt yn cael eu rhedeg gan yr Ysgol na'r ALI

25. Os bydd rhieni am i'w plant fynychu gweithgarwch y tu allan i'r ysgol nad yw'n weithgarwch ysgol ac nad yw'r ysgol yn ei drefnu, bydd rhaid iddynt wedyn ofyn i'r ysgol gytuno i'w plant fod yn absennol, yn union fel y byddent petaent am fynd â'u plant allan o'r ysgol am wyliau gyda'r teulu. Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu benderfynu a yw hyn er lles y disgybl. Rhaid iddynt gadw mewn cof hefyd ofynion Rheoliad 4A(a) o [Reoliadau Addysg \(Cofrestru Disgyblion\) 1995](#) sef na ddylai caniatáu mwy na phythefnos o absenoldeb mewn unrhyw flwyddyn i ddisgyblion onid oes amgylchiadau eithriadol.

26. Ceir canllawiau ar ddsbarthu mathau o absenoldeb yn Atodiad 4.i o Godau ac Arferion Cofrestru y Cynulliad yng [Nghylchlythyr 47/2006, 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion'](#) (Tachwedd 2006). Mae hwn ar gael ar e-bost: petshare@wales.gsi.gov.uk neu drwy fynd i wefan yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau/?lang=cy.

Bysiau Mini Ysgol

27. Caiff ysgolion godi tâl am gludiant yn eu bysiau mini o dan rai amgylchiadau os oes ganddynt drwydded a gyhoeddwyd o dan adran 19 o [Ddeddf Trafnidiaeth 1985](#). Mewn ambell achos, mae'r drwydded yn eithrio'r ysgol rhag gofynion trwyddedu cwmnïau a gyrwyr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSV). Nid yw trwydded yn ofynnol oni chodir tâl. Dylai ysgolion wneud cais i'r ALI am drwydded ar gyfer pob bws mini. Fodd bynnag, ni ellir

codi tâl os yw'r cludiant yn gysylltiedig â'r addysg a ddarperir i'r disgybl yn yr ysgol er mwyn ei helpu i fodloni gofynion unrhyw arholiad y mae'r ysgol yn paratoi'r disgybl ar ei gyfer, yn unol ag adran 451 o [Ddeddf Addysg 1996](#).

28. Caiff taliadau adennill rhai neu'r cyfan o gostau rhedeg y cerbyd, gan gynnwys dibrisiant, ond ni all y gwasanaeth wneud elw, naill ai'n uniongyrchol trwy'r taliadau a godir nac yn achlysurol trwy weithgarwch gwneud elw, hyd yn oed pe byddai unrhyw elw yn mynd tuag at gostau rhedeg eraill yr ysgol neu at ddibenion elusennol. Tâl yw unrhyw daliad a wneir mewn arian neu ar ffurf arall (er enghraifft, tanysgrifiad i glwb), gan neu ar ran person sy'n rhoi iddo neu iddi yr hawl i gael ei gludo/chludo.

29. Dim ond disgyblion, staff neu rieni yr ysgol all deithio am dâl yn un o fysiau mini'r ysgol.

30. Mae gwybodaeth bellach ar gael gan ALlau neu oddi wrth y Comisiynwyr Traffig rhanbarthol (cyfeiriadau yn y llyfr ffôn neu ar wefan yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr www.vosa.gov.uk).

Yn Gryno

Y Corff Llywodraethu:

- ni chaiff godi tâl am unrhyw weithgareddau sy'n digwydd yn ystod oriau ysgol, ar wahân i hyfforddiant offerynnol i ddisgyblion unigol neu ddisgyblion mewn grwpiau o hyd at bedwar;
- rhaid iddo lunio polisi ar godi tâl, a gall fod yn wahanol i bolisi'r ALI cyn belled â'i fod yn ateb gofynion y gyfraith;
- caiff wahodd y rhieni ac eraill i roi cyfraniadau gwirfoddol tuag at unrhyw ran o waith yr ysgol;
- caiff godi tâl am weithgareddau a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf y tu allan i oriau ysgol, cyn belled â bod y gweithgareddau hyn yn ychwanegiadau dewisol;
- caiff godi tâl am fwyd a llety ar gyrsiau preswyl.

Y Gyfraith

[Deddf Trafnidiaeth 1985](#), Adran 19

[Rheoliadau Addysg \(Arholiadau Cyhoeddus a Bennwyd\) 1989](#): OS 1989/377

[Ddeddf Addysg 1996](#): Adrannau 402, 449–462 a 560.

[Rheoliadau Addysg \(Gwybodaeth Ysgolion\) \(Cymru\) 1999](#)

[Rheoliadau Addysg \(Cofrestru Disgyblion\) 1995](#): OS 1995/2089 (fel y'u

diwygiwyd gan [Reoliadau Addysg \(Cofrestru Disgyblion\) \(Diwygio\) 1997](#):

OS 1997/2624, a chan [Reoliadau Addysg \(Cofrestru Disgyblion\) \(Diwygio\)](#)

[\(Cymru\) 2001 OS 2001/1109](#)

[Deddf Mewnffudo a Lloches 1999](#), Rhan 6

[Rheoliadau Addysg \(Oriau Ysgol a Pholisïau\) \(Gwybodaeth\)](#): OS 1989/398

Canllawiau

Arweiniad i Gyrrff Llywodraethu ar Godi Tâl am Weithgareddau Ysgol

[Passenger Transport Provided by Voluntary Groups](#) (yr Adran Drafnidiaeth)
PSV 385 (ar gael am ddim gan y Comisiynwyr Traffig rhanbarthol y mae eu cyfeiriadau ar gael yn y llyfr ffôn neu yn www.vosa.gov.uk)

